Office of the Traffic Commissioner Wales
Swyddfa'r Comisiynydd Traffig Cymru

**Canolfan gyswllt:**
**0300 123 9000***

**y we: www.gov.uk**

# GV72: Trosglwyddo Canolfannau Gweithredu: ATODLEN 4

Ffurflen Gais Atebol

### Am y ffurflen hon

Dylech lenwi'r ffurflen hon os dymunwch wneud cais i drosglwyddo canolfannau gweithredu. Mae Atodlen 4 i'r Ddeddf Cerbydau Nwyddau (Trwyddedu Gweithredwyr) 1995 yn rhoi gweithdrefn wedi ei symleiddio ar gyfer trosglwyddo canolfan/canolfannau gweithredu o drwydded un gweithredwr i drwydded gweithredwr arall neu ddarpar weithredwr.

Gall gael ei ddefnyddio ar adeg eich cais am drwydded newydd neu pan fydd cais i amrywio trwydded gyfredol.

Pan ddefnyddir y weithdrefn hon nid oes angen unrhyw hysbyseb yng nghyswllt y cais. Ni chodir ffi ar wahân am gais i ddefnyddio darpariaethau Atodlen 4. Ond, bydd y GV79 (ar gyfer cais newydd) neu GV81 (i amrywio trwydded gyfredol) fydd gyda hi yn tynnu ffi fel arfer. Pan fydd GV79 fe fydd ffi ymgeisio bob amser. Mae a fydd GV81 yn tynnu ffi yn dibynnu ar amgylchiadau'r cais. Os yw'r caniatâd ar drwydded yr ymgeisydd yn ddigon i gwmpasu trosglwyddo'r caniatâd ac nad yw'r ymgeisydd am gynyddu'r caniatâd cyffredinol ar ei drwydded yna ni fydd ffi yn daladwy. Ar bob achlysur arall bydd ffi yn daladwy. Bydd hynny'n wir hefyd os bydd y cais am Atodlen 4 yn cael ei wrthod a bod y comisiynydd traffig yn ystyried bod angen hysbyseb.

Rhaid i'r ganolfan/canolfannau gweithredu sy'n cael eu trosglwyddo gael eu nodi ar drwydded (ond dim mwy nag un) ar y dyddiad y gwneir y cais, a bydd yn cael ei thynnu oddi ar y drwydded honno os caniateir y cais.

Mae unrhyw amodau sy'n berthnasol i'r ganolfan/canolfannau gweithredu dan sylw yn cael eu trosglwyddo gyda hi, a rhaid i'r gweithredwr newydd dderbyn unrhyw ymrwymiadau. Ni all amodau ac ymrwymiadau gael eu newid ar adeg y trosglwyddo.

Mae defnyddio gweithdrefn drosglwyddo atodlen 4 yn ôl disgresiwn y comisiynydd traffig. Os byddai caniatáu cais atodlen 4 yn ymestyn y cyfnod adolygu ar gyfer y ganolfan/canolfannau dan sylw yna rhaid i'r comisiynydd traffig fod yn fodlon, cyn gwneud penderfyniad, na fydd unrhyw effeithiau niweidiol neu amodau amgylcheddol yn debygol o godi o ganlyniad.

### Llenwi'r ffurflen

Defnyddiwch inc du i lenwi'r ffurflen. Dylai'r ffurflen gael ei llenwi i gyd a'i chyflwyno gyda GV79 (pan fydd yn gais am drwydded newydd) neu GV81 (pan fydd yn gais i amrywio trwydded) wedi ei llenwi gan yr ymgeisydd.

Rhaid i Adran A o'r ffurflen hon gael ei lenwi gan yr ymgeisydd ac Adran B gan y gweithredwr neu unigolyn sy'n ildio'r ganolfan weithredu.

### Beth i'w wneud nesaf

Anfonwch eich ffurflen wedi ei llenwi, ynghyd ag unrhyw ddogfennau cefnogi at y comisiynydd traffig yn: Office of the Traffic Commissioner, Central Licensing Office, Quarry House, Quarry Hill, Leeds, LS2 7UE



*Mae galwadau gan BT ar gyfradd is.
Gall taliadau i ddarparwyr eraill amrywio.

**Diogelu Data**
Defnyddir yr wybodaeth bersonol a roddwch ar y ffurflen hon i ddibenion swyddogaethau statudol comisiynydd traffig. Gall hyn gynnwys rhannu'r wybodaeth yr ydych yn darparu gyda chomisiynwyr traffig eraill, Yr Adran Drafnidiaeth, adrannau eraill y llywodraeth ac asiantaethau gorfodi. Bydd gwybodaeth trwydded/cais safonol hefyd yn cael ei gynnwys mewn cofrestr genedlaethol sydd ar gael i bob aelod wladwriaeth. Mae rhagor o wybodaeth ar gael gan Swyddfa'r Comisiynydd Traffig.

**Sylwer: mae'n drosedd rhoi gwybodaeth anghywir ar y cais hwn.**

## Adran A - I'w llenwi gan yr ymgeisydd

**1a)** Rhowch eich rhif trwydded gweithredwr
(os yn berthnasol)

**1b)** Enw gweithredwr/ymgeisydd

**2)** Rhowch fanylion y ganolfan/canolfannau gweithredu yr ydych yn dymuno ei throsglwyddo. Ewch ymlaen ar daflen ar wahân os bydd angen.

| **Canolfan weithredu 1** | **Canolfan weithredu 2** |
|---|---|
| Cod Post | Cod Post |

**Rwyf yn datgan bod y datganiadau a wnaed yn y cais hwn yn gywir a bod yr holl dystiolaeth i gefnogi a ddarparwyd o ran fy nghais yn gywir. Deallaf ei bod yn drosedd gwneud datganiad anghywir.**

Eich enw yn llawn mewn llythrennau bras

Llofnod * Dyddiad

* i'w lofnodi gan yr un unigolyn ag sy'n llofnodi GV79 neu GV81.

Swydd yn y busnes - rhowch dic wrth **un** isod.

Perchennog ☐ Partner ☐ Cyfarwyddwr ☐

Swyddog wedi ei ddirprwyo o unrhyw sefydliad arall ☐

## Adran B - I’w llenwi gan yr unigolyn sy’n ildio’r ganolfan weithredu.

| | |
|---|---|
| **3)** Enw | |
| **4)** Enw Masnachu (os o gwbl) | |
| **5)** Rhif Trwydded | |
| **6)** Cyfeiriad (rhowch y cyfeiriad lle gallwn gysylltu â chi ar gyfer dibenion busnes) | Cod Post: |

| | | |
|---|---|---|
| **7)** Rhifau ffôn cyswllt | Busnes: | Ffacs: |
| | Cartref: | Symudol: |

| | |
|---|---|
| **8)** Cyfeiriad e-bost | |

**9)** A yw’r ganolfan/canolfannau gweithredu a nodir yng nghwestiwn 2 o Adran A yn cael ei nodi ar eich trwydded ar hyn o bryd?

Ydy ☐ Na ☐

**10)** A yw’r ganolfan/canolfannau gweithredu yn cael ei defnyddio fel canolfan weithredu gan unrhyw ddeiliad trwydded gweithredu cerbyd nwyddau arall?

Ydy ☐ Na ☐

**11)** Os gwnaethoch ateb ydy yng nghwestiwn 10 rhowch fanylion y deiliad trwydded arall. Ewch ymlaen ar daflen ar wahân os bydd angen

| | |
|---|---|
| Enw | |
| Enw Masnachu (os o gwbl) | |
| Rhif trwydded (os yn wybyddus) | |

**12)** Ticiwch fel y bo’n briodol:

a) Rwyf trwy hyn yn gofyn am i’r ganolfan/canolfannau gweithredu a nodir yng nghwestiwn 2 o Adran A
o’r ffurflen hon gael ei thynnu oddi ar fy nhrwydded; neu ☐

(b) Rwyf trwy hyn yn cynnig ildio’r drwydded. ☐

**Rwyf yn datgan bod y datganiadau a wnaed yn y cais hwn yn gywir. Deallaf ei bod yn drosedd gwneud datganiad anghywir.**

Eich enw yn llawn mewn llythrennau bras

Llofnodwyd                Dyddiad

Swydd yn y busnes - (Gweler y nodiadau isod) rhowch dic wrth **un** isod.

Perchennog ☐ Partner ☐ Cyfarwyddwr ☐

Swyddog wedi ei ddirprwyo o unrhyw sefydliad arall (noder, e.e. ymddiriedolwr)

**Nodiadau**

a. Os yw'r drwydded yn cael ei dal gan unigolyn rhaid i'r cais gael ei lofnodi gan yr unigolyn hwnnw

b. Os yw'r drwydded yn cael ei dal gan bartneriaeth gall yr holl bartneriaid lofnodi neu gall un partner lofnodi gyda chaniatâd a gwybodaeth y partneriaid eraill.

c. Os yw'r drwydded yn cael ei dal gan unrhyw gorff neu grŵp arall o unigolion yna gall y cais gael ei lofnodi gan un neu fwy o unigolion gyda chaniatâd i'r diben gan y corff neu grŵp a gall fod yn rheolwr trafnidiaeth. Yn yr achos olaf rhaid anfon datganiad gyda'r cais yn cadarnhau'r hawl i lofnodi.

## Rhestr wirio

Cyn dychwelyd y ffurflen hon gwnewch yn siŵr bod:

- Y ffurflen wedi ei llenwi i gyd
- Bod ffurflen GV79 neu GV81 ynghlwm ac unrhyw ddogfennau cefnogol ychwanegol
- Eich bod wedi amgau'r ffi angenrheidiol pan fydd hynny'n addas